

Annwyl Mr Farrar,

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin a fabwysiadwyd yn pwysleisio'r rôl bwysig sydd gan y Gymraeg o ran bywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd preswylwyr ac ymwelwyr yn Sir Gaerfyrddin. Mae hefyd yn cydnabod yr heriau sydd yn y dyfodol a'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg y cafwyd tystiolaeth yn ei gylich yng Nghyfrifiad 2011. Yn ôl y Ddeddf Cynllunio mae'n rhaid cynnal asesiad o'r Gymraeg wrth lunio'r cynllun. Cyhoeddwyd canllaw gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2014 ynghylch sut y dylid ymgorffori asesiad o'r Gymraeg wrth lunio'r CDLI. Roedd y canllaw hwn (ar ffurf Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 Polisi Cynllunio Cymru) wedi llywio'r gwaith o lunio'r CDLI ac roedd yn destun trafodaeth yn yr archwiliad cyhoeddus. Mae'r TAN yn nodi y dylai'r Arfarniad Cynaliadwyedd asesu tystiolaeth o effeithiau'r strategaeth, y polisiâu a'r dyraniadau gofodol ar y Gymraeg. Bydd goblygiadau strategaeth, polisiâu a dyraniadau'r cynllun datblygu i'r Gymraeg wedi cael eu hasesu ac mae pob Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys lwfans ar gyfer safleoedd sydd heb eu dyrannu (hap-safleoedd). O ganlyniad cafodd canlyniadau'r archwiliad eu hadlewyrchu yn Adroddiad terfynol yr Arolygydd.

Roedd y Gymraeg yn rhan o broses Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLI ac roedd yn destun tystiolaeth bellach benodol ar ôl cyhoeddi'r TAN diwygiedig. Mae gofynion polisi presennol Llywodraeth Cymru eisoes wedi eu hystyried wrth lunio'r CDLI a'i roi ar waith yn sgil hynny. Yn benodol, aseswyd effaith bosibl y CDLI ar y Gymraeg wrth lunio'r cynllun ac felly mae ei bolisiâu a'i ddarpariaethau'n adlewyrchu'r broses honno yn yr un modd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch y Gymraeg sydd bellach wedi eu mabwysiadu.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyriol o'r Ddeddf yn sgil cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y Gymraeg â swyddogion o Lywodraeth Cymru er mwyn mynegi sylwadau'r Cyngor yn dilyn canlyniadau'r Gweithgor. Felly bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn monitro ac yn ymateb i newidiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau yn sgil y Ddeddf yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o hynny. Bydd canllawiau diwygiedig sy'n cael eu cyhoeddi mewn perthynas â'r Gymraeg (i'w cadarnhau) a'r is-ddeddfwriaeth a gwybodaeth bellach sy'n cael eu rhyddhau ar draws amrywiaeth o feysydd polisi yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn adolygiad o'r Cynllun yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r CDLI yn adlewyrchu'r polisi cenedlaethol ar hyn o bryd ac felly nid yw'n ofynnol diwygio'r Cynllun cyn y dyddiad adolygu presennol.

Yn Gywir

Llinos

Llinos Quelch

Pennaeth Cynllunio / **Head of Planning**

8 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1JY.

8 Spilman Street, Carmarthen, SA31 1JY.

(01267 228918 Est/Ext. 2918 www.carmarthenshire.gov.uk

